

CYMUNEDAU GWLEDIG LLYWODRAETH CYMRU
RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG 2014-2020

LEADER

**NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR
SYDD AM WNEUD NEWIDIADAU I BROSIECT
SYDD WEDI EI GYMERADWYO**



Cynnwys

1. Pwrpas y Nodiadau Cyfarwyddyd	3
2. Terminoleg.....	3
3. Beth yw Newid i Brosiect?	3
4. Pa newidiadau gellir gwneud cais amdanynt?	4
5. Pryd / sut ydwyf yn gofyn am newidiadau?	5
6. Beth allai ddigwydd os nad wyf yn hysbysu'r rhoddwr grant o'r newidiadau?	6
7. Beth sy'n digwydd unwaith yr wyf wedi cyflwyno Ffurflen Newid Prosiect?	6
8. Canllaw ar gwblhau'r REF	7

1. Pwrpas y Nodiadau Cyfarwyddyd

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn egluro sut i ofyn am newidiadau i brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 - 2020.

2. Terminoleg

Canllaw i derminoleg gyffredin a diffiniadau:

- Achos: Prosiect wedi'i gymeradwyo yn y system WEFO ar-lein.
- Categoriâu o wariant cymwys: sydd hefyd yn cael eu galw yn benawdau; yr eitemau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y prosiect, y cewch hawlio ar eu cyfer.
- Proffil Cyflawni: proffil ariannol a gymeradwywyd ar gyfer eich prosiect, gan bennu pryd y byddwch yn hawlio. Rhaid i'r newidiadau iddo gael eu cymeradwyo gennym ni.
- Rhoddwr y Grant: Llywodraeth Cymru; cyfeirir ato fel 'ni'.
- Incwm: arian cyfatebol i lenwi'r bwch rhwng y gwariant a gwerth y grant. Gallai'r incwm fod o gronfa'r ymgeisydd ei hun, neu gronfeydd o rhywle arall. Byddwn yn cofnodi dim incwm ar gyfer prosiectau sy'n cael eu hariannu 100%.
- Dangosyddion: targedau sy'n cael ei pennu ar gyfer eich prosiect y mae'n rhaid ichi gofnodi yn eu herbyn.
- Cynllun Datblygu Gwledig: Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 - Mesurau Economaidd-gymdeithasol (mae mesurau ar y tir e.e. Glastir yn cael eu rheoli ar wahân).
- Rhaglenni Gwledig: Rhaglen Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
- Noddwr: Ymgeisydd cymeradwy. Y cyfeiriwyd ato fel 'chi' neu 'y noddwr' yn y nodiadau cyfarwyddyd hyn.
- Costau Symlach: Gallai'r rhain fod yn gostau staff neu orbenion sy'n cael eu hawlio ar gost uned fesul awr neu ar sail canran yn hytrach na chostau gwirioneddol neu wedi eu dosrannu h.y. 200 awr (uned) ar gyfradd o £20.95 yr awr. Caiff y gyfradd ei chyfrifo a'i phennu wrth gymeradwyo'r prosiect. Nid yw'r rhain yn berthnasol i bob prosiect.
- Trosglwyddiad: symud arian rhwng categorïau o Wariant Cymwys (mae hyn yn bosibl o fewn terfynau penodol, o fewn gwerth cyffredinol y grant a gymeradwyir).
- WEFO ar-lein: system TGCh ar y we ar gyfer cyflwyno ceisiadau a hawliadau i'r Rhaglenni Gwledig.

3. Beth yw Newid i Brosiect?

Newid i Brosiect (Ailwerthuso) yw'r broses o gytuno ar newidiadau sylweddol i brosiect a gymeradwywyd. Mae cymeradwyo prosiect yn seiliedig ar Broffil Cyflawni

(rhagolygon pryd y caiff y gwariant ei hawlio ac o dan ba benawdau) y cytunwyd arno ac a hysbyswyd drwy Lythyr Cymeradwyo Grant. Mae ond yn bosib i ofyn am Newid i Brosiect ar ôl ei gymeradwyo.

Mae eich Llythyr Cymeradwyo Grant yn pennu Telerau ac Amodau y grant. Yn benodol, cynigir y grant ar yr amod bod y prosiect yn cyflawni yn unol â'r manylion a ddisgrifir yng Nghanllawiau y Cynllun, Cynllun y Prosiect, y Cynllun Busnes, y Proffil Cyflawni ac unrhyw Amodau Arbennig (fel y bo'n gymwys).

Os ydych yn gweld bod y prosiect a gyflenwir yn wahanol i'r hyn y cytunwyd arno, mae angen ichi gyflwyno Ffurflen Newid Prosiect a Ffurflen Ailwerthuso (REF) i gymeradwyo'r amrywiadau. Gallwn nodi hefyd drwy fonitro bod angen newidiadau e.e. nad yw'r prosiect o fewn y Proffil Cyflawni y cytunwyd arno.

Os gwneir unrhyw newid i'r prosiect, mae'n rhaid i roddwr y grant gydsynio yn ysgrifenedig i'r newid. Pan fyddwch yn ein hysbysu bod angen newid eich prosiect, byddwn yn egluro ichi sut fydd y newidiadau yn cael eu trin.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd hysbysu rhoddwr y grant cyn gynted ag y bo modd os bydd newid sylweddol i'r prosiect o fewn 5 mlynedd i Ddyddiad Gorffen y Prosiect (fel a ddarparwyd yn y Llythyr Cymeradwyo) a'r newid hwnnw:

a) yn effeithio ar ei natur neu ar yr amodau ar gyfer ei gyflawni, neu yn rhoi mantais ormodol i gwmni neu gorff cyhoeddus.

b) yn digwydd oherwydd newid yn natur perchnogaeth rhyw eitem o'r seilwaith neu oherwydd diweddu neu adleoli gweithgaredd cynhyrchiol.

4. Pa newidiadau gellir gwneud cais amdanynt?

Mae newidiadau yn cynnwys altro natur y prosiect mewn unrhyw ffordd, er enghraifft newidiadau sylweddol dros oes y Prosiect yn y categorïau gwariant unigol neu'r targedau mesuradwy a nodir yng Nghynllun y Prosiect, y Cynllun Busnes neu'r Proffil Cyflawni; unrhyw newid i'r defnydd a wneir o'r Prosiect, y modd y caiff ei ariannu neu ei berchnogaeth ac/neu unrhyw newid i'r amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiect.

Mae hyn yn golygu bod modd bod yn hyblyg wrth gyflenwi'r prosiect, yr allbynnau tebygol, y penawdau gwariant a'r cyfnodau hawlio o fewn y prosiect ac yn adlewyrchu gwirioneddau cyflenwi'r prosiect h.y. newidiadau i gynlluniau gweithredu, prisiau, amseroedd cyflenwi, allbynnau, ayb.

Nodwch nad ydym yn gallu cymeradwyo unrhyw gyllid ychwanegol. Yn ychwanegol, dim ond un REF y flwyddyn fesul prosiect fydd yn cael ei ganiatáu fel arfer. Mae angen ichi ystyried hyn wrth ofyn am REF ar gyfer eich prosiect h.y. dylech aros cyn cyflwyno'r REF os ydych yn gwybod ei bod yn debygol y bydd newidiadau pellach yn fuan.

Cewch barhau i hawlio wrth ichi baratoi'r cais.

Caniateir trosglwyddiadau (symud arian) rhwng penawdau gwariant a gymeradwyir o lai na 15% o gyfanswm y pennawd ac nid oes angen cyflwyno REF. Fodd bynnag mae'n rhaid cyflwyno REF ar gyfer unrhyw beth sy'n cyfateb, neu sydd dros 15%. Er enghraifft byddai £1,000 allan o bennawd gwariant o £20,000 yn llai na 15% ac ni fyddai angen REF. Fodd bynnag, pe byddai'r £1,000 hwnnw'n cael ei symud i bennawd gwariant llai o er enghraifft £5,000 byddai'n golygu newid o dros 15% i'r math hwnnw a byddai angen REF.

Cofiwch nad oes modd symud cyllid rhwng prosiectau.

Mae'n rhaid i'r newidiadau arfaethedig i gyflenwi prosiect barhau i adlewyrchu amcanion y prosiect, fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd fel a nodir yng Nghanllawiau'r Cynllun a rhoi gwerth am arian.

Os yw prosiect yn debygol o leihau o ran graddfa ac/neu gostau mae'n rhaid egluro hyn yn y Ffurflen Newid Prosiect fel ei bod yn bosibl lleihau'r grant sy'n cael ei ddyfarnu a dychwelyd yr arian i'r cyllid cyffredinol.

5. Pryd / sut ydwyf yn gofyn am newidiadau?

Dylech ein hysbysu am unrhyw newidiadau i'r prosiect mewn e-bost yn y lle cyntaf.

Os oes unrhyw hawliadau ar gael i chi (statws wedi eu gwahodd yn hytrach na wedi eu cyflwyno) bydd angen ichi gadarnhau i ni a ydych yn dymuno cyflwyno'r hawliadau hyn neu a oes angen eu canslo. Cofiwch nad yw'r system yn caniatáu i hawliad a REF gael eu prosesu ar yr un pryd. Felly byddwn yn rhoi'r broses o flaenoriaethu hawliadau yn gyntaf, o flaen y REF, os nad yw'r newidiadau sydd eu hangen yn eich rhwystru rhag hawlio.

Mae'n rhaid i'r REG a'r Proffil Cyflawni diwygiedig yn ogystal ag unrhyw ddogfennau atodol eraill gael eu cyflwyno i ffolder Dogfennau Achos eich achos drwy WEFO Ar-lein. **Os nad oes Proffil Cyflawni Diwygiedig yn cael ei gyflwyno, NI chaiff y REF ei phrosesu.**

Wrth lenwi REF cyfeiriwch at:

- Y Llythyr Cymeradwyo Grant diweddaraf i gael ei anfon atoch sy'n pennu Telerau ac Amodau y grant a'r Proffil Cyflawni cyfatebol y cytunwyd arno i'r hyn sydd wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd ar gyfer y prosiect.
- Y Nodiadau Cyfarwyddyd perthnasol ar gyfer y Cynllun /Mesur

Mae'n rhaid ichi ein hysbysu trwy e-bost DatblyguLeolLocalDevelopment@gov.wales) unwaith y bydd y dogfennau wedi'u cyflwyno drwy WEFO Ar-lein. Os na fyddwch yn gwneud hyn gallai olygu y bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu y REF.

6. Beth allai ddigwydd os nad wyf yn hysbysu'r rhoddwr grant o'r newidiadau?

Os nad ydych yn ein hysbysu am newid i'r prosiect mae perygl o'r canlynol:

- a) Gall arwain at derfynu'r grant ac efallai y bydd yn ofynnol i chi ad-dalu rhan neu'r cyfan o unrhyw grant a dalwyd.
- b) bydd oedi gydag unrhyw hawliadau i ddod neu hawliadau yn y dyfodol am daliadau grant. Caiff hawliadau sy'n ein cyrraedd eu gwirio yn erbyn Proffil Cyflawni cymeradwy; bydd unrhyw wahaniaethau yn cael ei wirio a bydd rhaid ei ddatrys cyn gwneud unrhyw daliad.
- c) bydd eitemau o fewn eich prosiect yn cael eu cyfrif yn anghymwys os yw'r gwariant ar gyfer eitemau heb ei gymeradwyo yn eich Proffil Cyflawni- gweler delerau ac amodau y grant yn eich Llythyr Cymeradwyo Grant.

7. Beth sy'n digwydd unwaith yr wyf wedi cyflwyno Ffurflen Newid Prosiect?

Byddwn yn gwirio'r REF a'r Proffil Cyflawni i asesu:

- A yw'r ffurflenni sydd wedi'u cwblhau yn gywir.
- Beth yw'r newidiadau arfaethedig
- Pa mor gymwys yw'r newidiadau arfaethedig.
- Amseru y newidiadau sy'n cael eu prosesu yn y system h.y. os oes hawliadau'n cael eu prosesu.
- Gan ddibynnu ar natur /graddfa y newid efallai y bydd angen Diwydrwydd Dyladwy Technegol neu Ariannol llawn.

Os oes angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gennych i brosesu'r REF. Gallai unrhyw oedi yn eich ymateb gael effaith ar ein penderfyniad ar eich cais.

Bydd prosesu'r REF yn cymryd rhwng 30 a 120 diwrnod gwaith o'r amser y cyflwynwyd yr holl ddogfennau gofynnol gan gynnwys unrhyw ddogfennau atodol.

Byddwn yn blaenoriaethu unrhyw waith o brosesu'r REF sy'n cael effaith ar eich gallu i hawlio. Os oes gennych achos busnes sy'n galw am gymeradwyaeth yn gynt, gadewch inni wybod. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

Unwaith y bydd eich REF wedi'i phrosesu byddwn yn eich hysbysu, boed y REF wedi ei chymeradwyo ai peidio.

- Os y caiff ei chymeradwyo bydd y newidiadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr hawliad nesaf (wedi'i drefnu ar ôl i'r REF gael ei phrosesu).
- Os nad yw'r REF yn cael ei chymeradwyo, darperir eglurhad am hyn. Yn yr achos hwn dylai'r prosiect barhau i gael ei gyflenwi yn unol â'ch Llythyr Cymeradwyo diweddaraf a'r Proffil Cyflawni y cytunwyd arno; Telerau ac Amodau y grant sy'n berthnasol yw'r rhai sydd wedi'u hamlinellu yn eich Llythyr Cymeradwyo Grant presennol.

Cofiwch, nid yw'r ffaith eich bod yn cyflwyno REF yn golygu y caiff ei chymeradwyo.

8. Canllaw ar gwblhau'r REF

Cofiwch lenwi pob rhan perthnasol o'r REF. Os oes rhywfaint o'r wybodaeth ar goll neu yn anghywir, gallai hyn olygu oedi gyda gwerthuso'r REF, felly rydym yn argymhell eich bod yn dilyn y nodiadau yn ofalus er mwyn rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Manylion y Prosiect: nodwch fanylion adnabod eich prosiect.

Newid(iadau) Arfaethedig: dewiswch yr holl newidiadau perthnasol. Os oes angen sawl newid dewiswch pob un ohonynt.

- Newid y sefydliad sy'n cyflenwi'r prosiect (Y Prif Noddwr neu Ymgeisydd): mae hyn yn berthnasol pan gaiff y prosiect ei drosglwyddo er mwyn i sefydliad arall ei gyflenwi.
- Ychwanegu mathau newydd o benawdau gwariant (categoriâu): mae angen penawdau ychwanegol i'r rhai y cytunwyd arnynt yn y Proffil Cyflawni.
- Symud arian rhwng mathau o benawdau gwariant: mae angen gwerth uwch mewn un pennawd ac o'r un gwerth yn is mewn pennawd arall.
- Cynnydd neu ostyngiad yng Nghostau / Dyfarniad Grant y Prosiect: bydd angen i'r prosiect wario mwy neu lai na chyfanswm costau y prosiect a gymeradwywyd ac felly bydd angen cynyddu / gostwng y dyfarniad grant yn unol â hynny.
- Ymestyn y prosiect (newid i'r Hawliad Ariannol Diwethaf): mae hyn yn berthnasol os oes angen i'r Hawliad Ariannol Diwethaf gael ei symud ymlaen i ddyddiad hwyrach.

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014 - 2020
Nodiadau Cyfarwyddyd ar Newid ac Ailwerthuso Prosiect

- Newid cyfraddau costau uned (Costau Syml): pan fydd angen gwneud newidiadau i'r cyfraddau fesul uned ar gyfer costau syml (nid yw hyn yn berthnasol i bob prosiect).
- Newidiadau i allbynnau y mathau o Ddangosyddion (targedau): mae angen allbynnau dangosyddion ychwanegol i'r rhai y cytunwyd arnynt yn y Proffil Cyflawni.
- Gwariant ar newid proffil (symud i hawliadau diweddarach): mae gwariant /hawliadau prosiect yn hwyrach na'r hyn a gytunwyd yn y Proffil Cyflawni ac mae angen i'r gwariant yn yr hawliadau gael ei symud ymlaen i gyfnod diweddarach.
- Arall (nodwch beth): Os nad yw wedi ei gynnwys yn unrhyw un o'r uchod. Nodwch beth yw'r newid.

Rheswm dros y Newid(iadau): nodwch fanylion y newidiadau, y rhesymau drostynt a'r goblygiadau. Os nad ydych yn egluro'r rhesymau dros y newid yn llawn bydd yn rhaid inni ddod yn ôl atoch i gael rhagor o wybodaeth fydd yn golygu oedi gyda gwerthusiad y newidiadau arfaethedig.

Gwariant: (os yn berthnasol, nodwch dim newid fel arall) rhestrwch yr holl benawdau gwariant a'r symiau diwygiedig fesul pennawd gwariant o ganlyniad i'r newid.

Costau Prosiect: Nodwch Gyfanswm Costau y Prosiect, y grant a'r incwm (arian cyfatebol). Os nad oes newidiadau i'r rhain yna nodwch 'Dim Newid' yn erbyn pob un.

Dyddiad Gorffen y Prosiect: Darperir hwn yn eich Llythyr Cymeradwyo ac mae 3 mis wedi eich Hawliad Ariannol Diwethaf sydd yn eich Proffil Cyflawni a gymeradwywyd. Os na fydd yn prosiect yn gallu cyflwyno yr Hawliad Ariannol Olaf mewn pryd, mae'n rhaid ichi ddatgan y dyddiad olaf arfaethedig 3 mis wedi eich Hawliad Ariannol Olaf newydd. Yn yr achos hwn mae'n rhaid rhoi cyfiawnhad llawn i'r rhesymau dros yr oedi o dan yr adran Rhesymau Dros y Newid a sut y byddwch yn cyflenwi'r prosiect mewn amserlen newydd.

Dangosyddion: (os yn berthnasol, fel arall nodwch dim newid) rhestrwch eich dangosyddion cymeradwy ar gyfer y prosiect a'r dangosyddion diwygiedig o ganlyniad i'r newid(iadau) arfaethedig.